EIPWALES
Cydweithio er ffyniant gwledig
Collaborating for rural success

FARMING connect
cyswllt FFERMIO
08456 000 813



# Asesiad am blâu cyffredin ar Fefus

Dyluniwyd y cynllun hwn i fonitro am rai o'r plâu cyffredin sy'n ymosod ar fefus a all achosi difrod i'r cnydau. Ei fwriad yw monitro cnydau yn ystod y cyfnod pan fydd y pwysau gan blâu ar ei waethaf yn y tymor a fydd yn rhoi syniad i chi pa blâu sy'n bresennol yn eich cnwd.

Gall y dull hwn gael ei ddefnyddio mewn un o ddwy ffordd:

- Ar gyfer monitro cyffredinol ar ardal cnwd, boed yn wely bychan mewn gardd neu yn bolydwnnel llawn.
- Er mwyn profi dulliau rheoli newydd (e.e. rheolaeth fiolegol neu chwistrell) yna bydd gennych ardal gynrychioliadol (e.e. polydwnnel) i'w ddefnyddio fel ardal reoli gan ddefnyddio dulliau traddodiadol ac ardal arall o'r un maint i brofi dulliau newydd. Gallwch wedyn ddefnyddio'r data i gymharu'r ddau.

## Asesiadau

Dewiswyd y dull isod i gael cydbwysedd rhwng amser a chasglu data. Mae'n seiliedig ar safleoedd mwy gyda thwneli, ond gall gael ei gynnal ar raddfa lai i dyfwyr llai.

Mae'n trafod 4 o brif blâu mefus:

- Pryf glas
- Gwiddon corryn dau smotyn (TSSM)
- Gwiddon gwinwydd
- Pryfed taranau

## Nifer y planhigion

Dewiswch nifer gynrychioliadol o blanhigion gan ddibynnu ar faint ardal eich cnwd. Fel canllaw, dewiswch un planhigyn i bob 5m hyd at tua 16 mewn polydwnnel a sicrhau bod y planhigion yn cael eu dewis ar hap â bylchau tebyg rhyngddynt i lawr y twnnel.

Cofiwch y gall y nifer o blanhigion fod yn llai ar gyfer niferoedd llai, ond mwyaf yn y byd o blanhigion sy'n cael eu hasesu gorau yn y byd fydd eich dealltwriaeth o'r hyn sy'n digwydd yn y cnwd.

## Taflenni Data

Ar bob dyddiad sampl defnyddiwch y taflenni data a chynnal yr asesiadau.

Dylai'r dyddiadau fod tua mis ar wahân rhwng Ebrill a Hydref. Os gallwch samplo bob 2 wythnos byddai hynny'n ddelfrydol ond nid yw'n dyngedfennol.

## Asesiad 1- Niferoedd o bryfed glas



Enghraifft o bryfed glas yn cysgodi dan y dail

Ar gyfer yr asesiad hwn dewiswch 4 o ddail ifanc (llai) ar blanhigion gan mai dyma'r ardal sydd orau gan bryfed glas. Amcangyfrifwch y nifer o bryfed glas ar y ddeilen honno gan ddefnyddio'r system isod, nid yw'n cael ei argymell i chi eu cyfrif bob yn un gan y bydd hyn yn cymryd llawer o amser. Yn nodweddiadol bydd y pryfed glas dan y ddeilen, ond os ydych yn gweld pryfed glas ar yr ymledyddion (neu goesynnau) yn hytrach na'r dail, yna cyfrifwch nhw yno yn lle hynny.

### Amcangyfrif y Nifer o Bryfed Glas

Ar bob un o'r pedair deilen amcangyfrifwch y niferoedd gan ddefnyddio'r categorïau isod.

- Dim pryf glas
- 1-10 pryf glas ar bob planhigyn
- 10-25 pryf glas ar bob planhigyn
- 25-50 pryf glas ar bob planhigyn
- > 50 pryf glas ar bob planhigyn

## Asesiad 2- canran y difrod i'r dail gan widdon gwinwydd



Enghraifft o'r difrod a achosir gan widdon gwinwydd gydag oedolyn yn y llun er gwybodaeth.

Yn y nos y bydd gwiddon gwinwydd yn weithredol ac ni fyddwch yn eu gweld ar y cnwd tra bydd yr haul allan fel arfer. Felly mae'n well amcangyfrif y ganran o bob deilen sydd wedi cael eu difrodi.

Dewiswch 4 deilen ar y planhigyn ar hap ac ar gyfer pob deilen amcangyfrifwch ganran y difrod a achoswyd gan widdon gwinwydd. Mae gwiddon gwinwydd yn achosi olion brathu unigryw i ddail, gyda rhicynnau o siâp anghyson ar hyd ymylon y ddeilen.

## Asesiad 3- canran y difrod i ddail gan widdon corryn dau smotyn



Enghraifft o'r difrod gan y gwiddon corryn dau smotyn. Sylwch ar y melynu yn y gwaelod ar y chwith a'r top ar y dde.

Er mwyn amcangyfrif canran y difrod i'r dail gan widdon corryn dau smotyn (TSSM), dewiswch 4 deilen fawr ar hap ar y planhigyn yr ydych wedi bod yn ei asesu. Ar gyfer pob deilen amcangyfrifwch faint o ddifrod sydd wedi ei achosi gan y gwiddon gan ddefnyddio'r disgrifiad isod (yn yr enghraifft hon rydym yn amcangyfrif difrod gan na all TSSM gael eu gweld heb chwyddwydr.

**Disgrifiad o'r difrod -** Gall dail planhigion sydd wedi dioddef droi yn felyn a sychu, ac mae ochr isaf y dail sydd wedi eu heffeithio yn ymddangos fel petaent yn brownio neu felynu a mynd yn frau. Bydd ymosodiadau trwm yn creu gwe mân a all orchuddio'r planhigyn cyfan.

## Asesiad 4 - Cyfrif pryfed taranau



Tua 1mm o hyd


Enghreifftiau o bryf taranau llawn dwf

**Ar gyfer asesiad 4 dewiswch bedwar blodyn ar hap ar gyfer pob planhigyn.**

Yn nodweddiadol mae pryfed taranau yn byw yn y blodau neu du ôl i'r calycs, o ganlyniad mae'n well eu samplo trwy ddal y blodyn wrth y coesyn ac yna taro'r blodyn yn galed gyda'r llaw dros un ddalen A4 o bapur gwyn.

Ar ôl i chi orffen taro, cyfrwch y nifer o bryfed taranau sydd wedi syrthio ar y papur. Cliriwch nhw oddi ar y papur a symud i'r blodyn nesaf.

## Asesiad 5 - Difrod pryfed taranau





Enghreifftiau o ffrwythau wedi eu brownio gan bryfed taranu ar ffrwythau coch a gwyn

**Ar gyfer asesiad 5 dewiswch bedwar darn o ffrwyth ar hap (pan fydd yn berthnasol) ar bob planhigyn.**

Amcangyfrifwch ganran y difrod a achoswyd gan bryfed taranau (brownio) i bob un o'r pedwar ffrwyth. Isod mae disgrifiad a llun enghreifftiol o'r difrod y gellir ei achosi.

**Brownio -** smotiau borwn o gwmpas yr hadau wedi eu hachosi gan bryfed taranau yn bwyta wrth i'r ffrwyth ddatblygu. Wrth i'r ffrwyth aeddfedu bydd y brownio yn llai amlwg.

| Twnnel | | | | | DYDDIAD: | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Ardal Reoli | Deilen | Asesiad 1<br>Nifer y Pryfed Glas | Asesiad 2<br>% Difrod gwiddon corryn dau smotyn (TSSM) | Asesiad 3<br>% Difrod gwiddon gwinwydd | Blodau | Asesiad 4<br>Nifer y pryfed taranau | Ffrwythau | Asesiad 5<br>% Brownio gan Bryfed Taranau |
| Planhigyn 1 | Deilen 1 | | | | Blodyn 1 | | Ffrwyth 1 | |
| | Deilen 2 | | | | Blodyn 2 | | Ffrwyth 2 | |
| | Deilen 3 | | | | Blodyn 3 | | Ffrwyth 3 | |
| | Deilen 4 | | | | Blodyn 4 | | Ffrwyth 4 | |
| Planhigyn 2 | Deilen 1 | | | | Blodyn 1 | | Ffrwyth 1 | |
| | Deilen 2 | | | | Blodyn 2 | | Ffrwyth 2 | |
| | Deilen 3 | | | | Blodyn 3 | | Ffrwyth 3 | |
| | Deilen 4 | | | | Blodyn 4 | | Ffrwyth 4 | |
| Planhigyn 3 | Deilen 1 | | | | Blodyn 1 | | Ffrwyth 1 | |
| | Deilen 2 | | | | Blodyn 2 | | Ffrwyth 2 | |
| | Deilen 3 | | | | Blodyn 3 | | Ffrwyth 3 | |
| | Deilen 4 | | | | Blodyn 4 | | Ffrwyth 4 | |
| Planhigyn 4 | Deilen 1 | | | | Blodyn 1 | | Ffrwyth 1 | |
| | Deilen 2 | | | | Blodyn 2 | | Ffrwyth 2 | |
| | Deilen 3 | | | | Blodyn 3 | | Ffrwyth 3 | |
| | Deilen 4 | | | | Blodyn 4 | | Ffrwyth 4 | |
| Planhigyn 5 | Deilen 1 | | | | Blodyn 1 | | Ffrwyth 1 | |
| | Deilen 2 | | | | Blodyn 2 | | Ffrwyth 2 | |
| | Deilen 3 | | | | Blodyn 3 | | Ffrwyth 3 | |
| | Deilen 4 | | | | Blodyn 4 | | Ffrwyth 4 | |
| Planhigyn 6 | Deilen 1 | | | | Blodyn 1 | | Ffrwyth 1 | |
| | Deilen 2 | | | | Blodyn 2 | | Ffrwyth 2 | |
| | Deilen 3 | | | | Blodyn 3 | | Ffrwyth 3 | |
| | Deilen 4 | | | | Blodyn 4 | | Ffrwyth 4 | |
| Planhigyn 7 | Deilen 1 | | | | Blodyn 1 | | Ffrwyth 1 | |
| | Deilen 2 | | | | Blodyn 2 | | Ffrwyth 2 | |
| | Deilen 3 | | | | Blodyn 3 | | Ffrwyth 3 | |
| | Deilen 4 | | | | Blodyn 4 | | Ffrwyth 4 | |
| Planhigyn 8 | Deilen 1 | | | | Blodyn 1 | | Ffrwyth 1 | |
| | Deilen 2 | | | | Blodyn 2 | | Ffrwyth 2 | |
| | Deilen 3 | | | | Blodyn 3 | | Ffrwyth 3 | |
| | Deilen 4 | | | | Blodyn 4 | | Ffrwyth 4 | |